Adran yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Department for Economy, Skills and Natural Resources

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
d/o committeebusiness@gov.wales

6 Medi 2018

**CYLLID A RODDWYD GAN LYWODRAETH CYMRU I KANCOAT LTD**

Annwyl Gadeirydd

Roedd argymhelliad 11 yr adroddiad uchod yn gofyn i Lywodraeth Cymru roi gwybod i'r Pwyllgor am ganlyniad y trafodaethau ynghylch hen safle Alcoa yn Abertawe a'i effaith ar swm terfynol y golled o ganlyniad i'r buddsoddiad yn Kancoat gan gynnwys unrhyw waith adfer.

Roedd adroddiad y WAO "Cyllid a roddwyd gan Lywodraeth Cymru i Kancoat Ltd" a gyhoeddwyd ar 14 Gorffennaf 2016 yn ddisgrifiad ffeithiol o agweddau pwysicaf pecyn cymorth ariannol Llywodraeth Cymru i Kancoat Ltd ac fe'u cyflwynwyd yng nghyd-destun ehangach y cymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i fusnesau yng Nghymru. Roedd yr adroddiad yn nodi'r gwariant a ysgwyddwyd yn y cyfnod adrodd, gan gynnwys yr £1.3m o fenthyciadau masnachol a'r £700k o Gyllid Busnes Ad-daladwy. Nodwyd hefyd £1.4m o gymorth Eiddo, fel ymrwymiad lês. Nododd yr adroddiad felly ymrwymiad cyfan potensial o £3.4m.

Mae swyddogion bellach wedi dod i gytundeb â pherchennog y tir ynghylch ildio lês Llywodraeth Cymru ar Uned 1, Ystad Ddiwydiannol Westfield. Mae'r cytundeb hwnnw'n cydnabod na fydd Llywodraeth Cymru'n atebol am y rhent ar ôl 30 Mehefin 2018 (er bod y lês yn para tan Chwefror 2029 am rent o £180,000 y flwyddyn) ac ni fydd chwaith yn atebol am y gwaith cyfalaf a oedd yn ofynnol o dan y lês; cafwyd amcangyfrif annibynnol bod y costau hyn yn werth bron £3m.

Y swm terfynol ar gyfer ildio'r lês oedd £1.99m. Trwy ildio'r lês, sicrhawyd na fyddai unrhyw gostau pellach i'w hysgwyddo yn sgil prosiect Kankoat a bod y rhwymedigaethau o dan y lês wedi'u cadw mor fach â phosib.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Canolfan QED • QED Centre
Y Brif Rodfa • Main Avenue
Trefforest • Treforest
CF37 5YR

Ffôn • Tel 0300 061 5691
mick.mcguire@wales.gsi.gov.uk
Gwefan • website: www.wales.gov.uk

Y swm terfynol felly o ran argymhelliad 11 yw £5,135,729.58.  Mae'r gwariant hwn yn cynnwys yr arian a roddwyd i Kankoat, cost ildio'r lês, incwm o ad-dalu'r benthyciad, gwerthu'r llinell gaenu a'r gwariant cysylltiedig ar yr eiddo.

Yn gywir



Mick McGuire